# Hanes brechlynnau

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

## 1721


**O Dwrci i Loegr**

Ar ôl goroesi'r frech wen, daeth yr Arglwyddes Mary Wortley Montagu â variolation (yr arfer o heintio person yn fwriadol gydag ychydig bach o glefyd er mwyn eu himiwneiddio) i Loegr, gan newid trywydd iechyd y cyhoedd.



## 1724

**Arbrawf Dewr Ffermwr**



Fe wnaeth ffermwr o Ddorset, Benjamin Jesty, heintio ei deulu â brech y fuwch yn fwriadol er mwyn eu hamddiffyn rhag y frech wen. Gan ddefnyddio ei brofiad ei hun a phrofiad llaethferched lleol a oedd, yn ôl pob golwg, yn yn imiwn, cymerodd risg a osododd sylfaen ar gyfer gwyddoniaeth brechlynnau fodern, er gwaethaf yr ymateb.

## 1776

**Y Gwir Frechlyn Cyntaf**

efnyddiodd Edward Jenner, meddyg o Swydd Gaerloyw, grawn brech y fuwch gan Sarah Nelmes a'i chwistrellu i mewn i James Phipps, 8 oed. Yna cafodd James ei amlygu i'r frech wen ac roedd ganddo imiwnedd. Profodd hyn y gellir cael imiwnedd i'r frech wen ac fe lansiwyd oes y brechu.



## 1798

**Ymgyrch Frechu gyntaf y byd**

Cyhoeddodd Jenner ei ymchwil ac arweiniodd hyn at wybodaeth a chefnogaeth eang. Teithiodd o gwmpas ardaloedd cyfagos, gan frechu pobl am ddim.



## Early 1800s

**Y mudiad gwrth-frechu cyntaf**

Cyhoeddodd Jenner ei ymchwil ac arweiniodd hyn at wybodaeth a chefnogaeth eang. Teithiodd o gwmpas ardaloedd cyfagos, gan frechu pobl am ddim.



## 1840/53/67

**Amddiffyniad i Bawb: Y Ddeddf Brechu**

Y gyfraith gyntaf a basiwyd i wneud brechiadau'n orfodol, ac yn rhad ac am ddim i bawb. Dilynwyd hyn gan gyfreithiau ym 1853 ac 1867 i frechu plant. Arweiniodd hyn yn nes ymlaen at Gynghrair Gwrth-Frechu Caerlŷr ym 1869 a phrotestiadau torfol.



## 1885

**Damcaniaeth Germau Pasteur: Chwyldro gwyddonol**

Datblygodd Louis Pasteur dystiolaeth ar theori germau a firysau ynysig sy'n achosi niwed o fewn y diwydiannau cwrw, llaeth a diwydiannau eraill. Mae hefyd yn ynysu'r firws rabies ac yn datblygu brechlyn yn ei herbyn.



## Early 1900s - 1961

**Polio wedi'i Drechu**

Mae polio yn achosi parlys i freichiau a choesau ac i'r system resbiradol, ac mae'n effeithio fwyaf ar blant. Yn sgil achosion drwy gydol dechrau'r 20fed ganrif, datblygwyd yr ysgyfaint haearn i helpu gyda thriniaeth. Mae brechlyn polio Jonas Salk yn arwain at ostyngiad o 50% mewn achosion mewn blwyddyn. Dilynwyd hyn gan fae fersiwn Albert Sabin, a roddwyd trwy'r geg. Gwnaeth y brechlyn hwn imiwneiddio torfol yn bosibl ledled y byd.



## 1963

**Cyflwynwyd Brechlyn y Frech Goch**

Unwaith yn salwch plentyndod arferol oedd â chyfradd marwolaeth gudd. Creodd John Enders y brechlyn cyntaf, a gafodd ei fireinio'n ddiweddarach gan Maurice Hilleman er mwyn lleihau'r sgîl-effeithiau. Mae wedi achub miliynau o fywydau ifanc. Er ein bod ni nawr yn dechrau gweld achosion yn y DU.



## 1980

**Brech wen wedi'i dileu**

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn datgan bod y frech wen wedi'i dileu. Yr achos diwethaf oedd yn Somalia ym 1977




## 1994 - 2019

**Ffyniant Brechlynnau**

Yn ystod y 25 mlynedd hyn, datblygwyd a lansiwyd 20 o frechlynnau neu frechlynnau cyfun. Mae'r rhain wedi arwain at ostyngiadau mewn nifer o afiechydon ymhlith plant ac oedolion gan gynnwys difftheria, llid yr ymennydd, y ffliw, pertwsis, yr eryr a rotafeirws, gan amddiffyn biliynau ledled y byd.



## 2021



**Brechlynnau COVID-19 yn Dod â Diwedd i Argyfwng Byd-eang**

Yn 2021, rhoddwyd trwydded ar gyfer y brechlyn COVID. Roedd hwn yn fath newydd o gyflwyno brechlyn a oedd wedi cael ei astudio ers 1984 ar gyfer triniaethau a brechlynnau.

## FUTURE

**Y Dyfodol – Dyw Gwyddoniaeth Byth yn Cysgu**

Mae gwyddonwyr yn parhau i weithio ar frechlynnau newydd ar gyfer llawer o wahanol afiechydon. Mae'r rhain yn cynnwys clefyd Alzheimer, clefydau awtoimiwn, Ebola, Dengue a Hepatitis B ac yn ddiweddar iawn y brechlyn HIV newydd a fydd yn newid llawer o fywydau!